

Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Rhagfyr 2il, 2014

Presennol: Dewi Jones (Cadeirydd), Alwyn Roberts (is gadeirydd), Huw Antur, Beryl Hughes Griffiths, Arwel Lloyd Jones, Heledd Jones, Karl Jones, Rhodri Jones, Huw P Roberts, Ian Trow, Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

1359 Croesawyd pawb gan y Cadeirydd a derbyniwyd ymddiheuriadau Alan Jones Evans, Cynghorydd Gwynedd, a Catrin Roberts.

1360 Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar faterion ar yr Agenda.

1361 Datganodd Beryl Hughes Griffiths fuddiant ym mater Cais Cynllunio NP5/71/LB4A.

1362 Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Tachwedd 4ydd 2014.

1363 Nid oedd materion yn codi o'r Cofnodion sydd ddim ar yr Agenda.

1364 Anfonodd y Cynghorydd Sir hysbysiad trwy e-bost o'r sefyllfa wrth gyffordd yr A494 a'r A470 yn Nolgellau.

1365 Un Llais Cymru

Derbyniwyd adroddiad Huw P Roberts o'r cyfarfod ardal a soniodd yn arbennig am Gynllun Datblygu Gwynedd a Môn, cynnal mynwentydd, a datblygiadau posib i ysbytai lleol. Mae angen atgoffa'r cyhoedd fod angen i gŵn fod ar dennyn lle mae stoc, ond os oes perygl dylai perchennog ollwng gafael ar y tennyn a'r ci ar unwaith. Soniodd hefyd am y gwaith ardderchog a wneir gan y Fforwm Menter Lleol yn ardal Ffestiniog.

Derbyniwyd adroddiad cynrychiolwyr ar yr Hyfforddiant buddiol yn yr Henblas yn ddiweddar ar ddatganoli gwasanaethau.

1366 Materion Eiddo'r Cyngor

- i. Mabwysiadwyd Rheoliadau'r Mynwentydd wedi eu hadolygu. Gan ddilyn gofynion y Rheoliadau, cytunwyd i wneud rhestr erbyn y cyfarfod nesaf o'r beddau sydd â phlanhigion neu nodweddion arnynt, gan fod gwreiddiau planhigion yn ansefydlogi beddau, a chan fod nodweddion a cherrig bychain yn rhwystr i gynnal a chadw. Mae'r Rheoliadau i'w gweld ar Wefan y Cyngor, gan Swyddog y Fynwent (Mrs Bethan Edwards) a gan yr Ymgymrwyr lleol. **Gweithredu: Clerc, Clerc y Fynwent**
- ii. Wal y fynwent – cytunodd Arwel Lloyd Jones i geisio cael y gwaith angenrheidiol wedi ei wneud. **Gweithredu: Arwel Lloyd Jones**

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Dewi Jones

- iii. Derbyniwyd adroddiad o'r cyfarfod ar y cyd gyda Chyngor Cymuned Llandderfel yn dilyn diddymu'r grant digolledu diffygion ariannol mynwentydd. Yn dilyn trafodaeth lawn, cytunwyd i ofyn i'r Is bwyllgor Cyllid ystyried y mater ymhellach ac adrodd yn ôl gydag argymhellion i'r cyfarfod nesaf o'r Cyngor Cymuned.
- iv. Uwchraddio'r Toiledau: cytunodd Karl Jones i geisio cael pris ar y cynllun a ddaeth i law, neu ar amrywiad ohono. **Gweithredu: Karl Jones**

1367 Materion ariannol:

- i. Derbyniwyd adroddiad ar y sefyllfa ddiweddaraf.
- ii. Rhoddir ystyriaeth i gwt yr hers yn y cyfarfod nesaf.
- iii. Cytunwyd i dalu anfonebau'r mis a ddaeth i law ac i'r is bwyllgor Cyllid ystyried talu costau'r Clerc.

1378 Materion lleol gan aelodau'r Cyngor Cymuned

Bu gwelliant yn sefyllfa taclusrwydd a diogelwch ym Mhenantlliw

1379 Partneriaeth Penllyn:

- i. Adroddodd y cynrychiolwyr i'r Cynllun Busnes gael ei adolygu'n ddiweddar gydag arbenigwr a awgrymodd adeiladu arian wrth gefn. Cytunwyd i anfon at Swyddfa'r Aelod Seneddol i roi gwybod i'r staff fod yr Henblas yn awr ar gael i gynnal Cymorthfeydd. Gwerthfawrogwyd yn fawr cefnogaeth yr Aelod Seneddol o'r cychwyn i'r fenter. **Gweithredu: Clerc**
- ii. Trafodwyd y llwybrau sydd yn y Cytundeb a chytunwyd nad oedd angen newid y gofynion. Parc Cenedlaethol Eryri sy'n gofalu am nifer o'r llwybrau eraill a chytunwyd i gysylltu gyda Seimon Roberts yng nglyn a thorri mieri wrth fynedfa Llwybr y Cŵn, a hefyd gofyn iddo am ei gyngor parthed mwsogl yn tyfu ar wyneb Llwybr y Cei. **Gweithredu: Clerc**

1380 Gohebiaeth:

1. Parc Cenedlaethol Eryri:

- i. Derbyniwyd gwybodaeth am ganiatâd i gais NP5/71/39V sef gwaith yng Ngwersyll yr Urdd, Glanllyn.
- ii. Cymeradwywyd cais NP5/71/LB4A i ffurfio agoriad yn wal mynwent yr eglwys a gwaith i sefydlogi porth y fynwent.

Yn berthnasol i'r uchod, derbyniwyd hysbysiadau ffurfiol i'r Cyngor Cymuned fel perchnogion y fynwent a'r wal fod cais wedi ei wneud am ganiatâd cynllunio (sef agoriad yn y wal a sefydlogi'r porth) a chais cynllunio ar wahân ar gyfer caniatâd i newid defnydd yr eglwys yn ganolfan dreftadaeth a hostel. Daeth yr hysbysiadau oddi wrth Penseiri Davies Sutton (asiant), Caerdydd.

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Dewi Jones

2. Heddlu: Derbyniwyd gwybodaeth am Wasanaeth Carolau'r Gwasanaethau Brys yn Eglwys Gadeiriol, Bangor

3. Cyngor Gwynedd:

i. Derbyniwyd Adroddiad Peg 2013 -14

ii Derbyniwyd gwybodaeth am waith i ffosydd yn ymyl Cwm Tylo

1381 Cymeradwywyd enw Sion Llywelyn fel Ymddiriedolwr i Elusen Maurice Vaughan, ar ymddeoliad Arthur Edwards ar ôl blynyddoedd hir o wasanaeth clodwiw.

Cytunwyd i gyfarfod am **8.00pm** ar Ionawr 6ed, 2015